

## Polisi Dewch â'ch Dyfais eich Hun (DAD)

### Ar gyfer Disgyblion a Rhieni

#### Cyflwyniad



Mae Technoleg Symudol yn rhan annatod o fywyd modern ac felly mi ddylai fod yn rhan o fywyd Ysgol. Mae'r strategaeth Dewch â'ch Dyfais eich Hun (DAD) yn adnodd gwerthfawr sy'n cynnig nifer o gyfleoedd addysgol, o gofnodi gwybodaeth, dynnu lluniau o nodiadau, diweddarau Hwb+ neu ymchwilio ar y Rhyngwrwd.

Fel gyda phob technoleg, mae 'na risgiau os caiff ei defnyddio mewn ffordd anaddas. Gall y defnydd o dechnoleg symudol beri rhywfaint o bryder, ond o'i defnyddio o fewn diogelwch polisi defnydd cytunedig, a rhai ffiniau syml, gellir lleihau'r risgiau hyn a sicrhau buddiannau. Dylai ysgolion ystyried opsiynau storio diogel megis loceri i gynorthwyo defnyddwyr i ddiogelu data.

Defnyddir y gair dyfais i ddisgrifio unrhyw ffôn symudol, tabled, gliniadur (teclyn gwisgadwy fel watsh clyfar) neu unrhyw ddyfais sy'n gallu cyfathrebu gyda'r rhyngwrwd neu gofnodi gwybodaeth.

Gall yr Ysgol benderfynu caniatáu defnydd o ddyfeisiau DAD personol ai peidio, ac ni ddylid ei ystyried fel hawl awtomatig. Gall disgyblion ddefnyddio'u dyfeisiau'u hunain yn y stafell ddosbarth pan mae'r athro'n caniatáu hynny.

#### Polisi Dewch â'ch Dyfais eich Hun (DAD)

Nid yw'r Ysgol yn gyfrifol am warchod, storio, diogelwch, yswiriant neu berchnogaeth unrhyw ddyfais a ddefnyddir ar safle'r Ysgol nad yw'n berchen i'r Ysgol. Rhaid defnyddio unrhyw ddyfeisiau a ddygir i'r Ysgol dan y polisi DAD mewn ffordd ddiogel, a rhaid cadw at bolisi defnydd derbyniol yr Ysgol.

Y perchennog sy'n parhau i fod yn gyfrifol am ddiogelwch a phob defnydd o ddyfais DAD, ac os ydy'r perchennog yn poeni am ddiogelwch y ddyfais, ni ddylai ddod â hi i'r ysgol.

Os bydd dyfais yn cael ei dwyn neu'i difrodi tra mae ar safle'r Ysgol, rhaid rhoi gwybod i'r dderbynfa ar unwaith, fel bod modd cofnodi'r digwyddiad a chynnal ymchwiliad os oes angen.

Bydd pob dyfais DAD yn cyfathrebu trwy gyfrwng rhwydwaith diwifr yr ysgol yn unig, gan ddefnyddio'u manylion personol eu hunain i gysylltu. Bydd pob mynediad i'r rhyngwrwd trwy gyfrwng y rhwydwaith yn cael ei gofnodi a'i hidlo'n unol â manylion Polisi Hidlo'r Rhyngwrwd.

Ni fydd dyfeisiau DAD yn cael mynediad i rwydwaith a systemau mewnol yr ysgol. Ni ddylid eu cysylltu â'r rhwydwaith gwifrog a bydd unrhyw ymdrech i wneud hynny'n tramgwyddo yn erbyn diogelwch y rhwydwaith.

**Mae'r defnydd o ddata cellog (e.e. GPRS, EDGE, 3G, 4G, ac ati.) gan ddisgyblion i gael mynediad i'r Rhwydwaith yn yr Ysgol wedi'i wahardd yn llwyr.** Dylai unrhyw fynediad fod trwy gyfrwng rhwydwaith diwifr yr Ysgol sydd wedi'i hidlo'n briodol. Un o amodau defnydd o DAD dan y polisi hwn yw bod disgyblion yn gyfrifol am ddiffodd data cellog ar eu dyfais tra maent ar safle'r Ysgol.

**Gwaherddir y defnydd o gamerâu ac offer recordio, gan gynnwys y rhai sy'n rhan annatod o ddyfeisiau, i dynnu lluniau neu recordio sain unigolion, oni bai ei fod at ddibenion addysgol,** a chyda chaniatâd ymlaen llaw unrhyw unigolyn/unigolion sy'n destun recordio/tynnu llun. Rhaid storio unrhyw ddata a recordir yn unol â'r ddeddfwriaeth amddiffyn data.

Rydym yn annog defnyddwyr i ddiogelu'u dyfeisiau'u hunain e.e. trwy ddefnyddio cyfrinair, PIN neu fesur diogelwch arall fel bo'n briodol. Mae defnyddwyr yn gyfrifol am eu dyfais/dyfeisiau'u hunain tra maent ar safle'r Ysgol.

Lawrlwythir unrhyw apiau, diweddariadau neu feddalwedd i unrhyw ddyfais tra'n defnyddio rhwydwaith diwifr yr Ysgol ar risg y perchennog, ac nid yw'r Ysgol yn atebol am unrhyw ddata a gollir neu unrhyw ddifrod a achosir i ddyfais yr unigolyn o ganlyniad i hynny.

Nid yw'r Ysgol yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau/ffioedd sy'n codi wrth ddefnyddio'r dyfeisiau, a'r perchennog sy'n llwyr gyfrifol amdanynt.

Pan ar safle'r Ysgol ac wedi'u troi ymlaen, rhaid i ddyfeisiau DAD fod wedi'u gosod ar y modd tawel oni bai bod caniatâd wedi'i roi at ddibenion addysgol.

Ceblau gwefru USB yn unig a ganiateir yn yr Ysgol, a hynny mewn manau gwefru penodedig. Gwaherddir addaswyr prif gyflenwad oni bai eu bod wedi cael prawf PAT.

Bydd y defnydd o DAD yn cael ei fonitro a bydd unrhyw gamddefnydd yn arwain at wahardd y ddyfais honno o'r rhwydwaith DAD yn ddi-oed. Hefyd bydd unrhyw gamddefnydd yn cael ei adolygu'n unol â pholisi defnydd derbyniol yr ysgol.

Rhwygwch y slip isod a'i ddychwelyd i'r ysgol os yr ydych yn rhoi eich caniatâd i'ch plentyn i fod yn rhan o'r cynllun DAD.

-----  
Rwyf wedi darllen polisi DAD Ysgol Penweddig.

Dilewch un datganiad:

Rwyf yn rhoi fy nghaniatâd i'm plentyn ddefnyddio'r rhwydwaith DAD/

Nid wyf yn rhoi fy nghaniatâd i'm plentyn ddefnyddio'r rhwydwaith DAD.

Enw'r Disgybl: \_\_\_\_\_ Dosbarth : \_\_\_\_\_

Llofnod Disgybl: : \_\_\_\_\_

Enw Rhiant / Gwarcheidwad : \_\_\_\_\_

Llofnod Rhiant : \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_